**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1344 (Cy.134)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n dod i rym ar 24 Mai 2006, yn gweithredu yng Nghymru-

- Penderfyniadau'r Comisiwn 2002/757/EC dyddiedig 19 Medi 2002 (OJ Rhif L 252, 20.9.2002, t.37) a 2004/426/EC dyddiedig 29 Ebrill 2004 (OJ Rhif L 189, 27.5.2004, t.1) ar fesurau ffytoiechydol brys dros dro i rwystro dod â *Phytophthora ramorum* i'r Gymuned ac i rwystro'i ledaenu o fewn y Gymuned i'r graddau y maent yn berthnasol i blanhigion ac eithrio coed fforestydd; a
- Penderfyniad y Comisiwn 2004/278/EC (OJ Rhif L 87, 25.3.2004, t.31) ar safbwynt y Gymuned ar ddiwygio'r Ychwanegiadau i Atodiad 4 i'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Chydffederasiwn y Swistir ar fasnach a chynhyrchion amaethyddol i'r graddau y mae'n ymwneud â *Camellia, Rhododendron a Viburnum*.

Mae'r Gorchymyn yn gwahardd dod â'r pla planhigion *Phytophthora ramorum* i mewn ac yn gwahardd ei ledaenu (erthygl 3).

Mae'n rheoli mewnforio deunydd nifer o rywogaethau a genera planhigion sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n dod o UDA, drwy ei gwneud yn ofynnol i dystysgrifau ffytoiechydol fynd gyda'r cyfryw ddeunydd a'r rheini'n dystysgrifau na chaniateir eu dyroddi ond ar ôl i wiriadau penodol gael eu cyflawni wrth gynhyrchu a chyn traddodi; neu, fel arall, os yw'r deunydd yn tarddu mewn rhan o UDA y mae'r awdurdodau iechyd planhigion yn cydnabod ei bod yn

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1344 (W.134)

# PLANT HEALTH, WALES

## The Plant Health (*Phytophthora ramorum*) (Wales) Order 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order, which comes into force on 24 May 2006, implements in Wales-

- Commission Decisions 2002/757/EC of 19 September 2002 (OJ No. L 252, 20.9.2002, p. 37) and 2004/426/EC of 29 April 2004 (OJ No. L 189, 27.5.2004, p.1) on provisional emergency phytosanitary measures to prevent the introduction into and the spread within the Community of *Phytophthora ramorum* insofar as they relate to plants other than forest trees; and
- Commission Decision 2004/278/EC (OJ No. L 87, 25.3.2004, p.31) on the Community position on the amendment of the Appendices to Annex 4 to the Agreement between the European Community and the Swiss Confederation on trade and agricultural products insofar as it relates to *Camellia, Rhododendron and Viburnum.*

The Order prohibits the introduction and spread of the plant pest *Phytophthora ramorum* (article 3).

It controls the importation of material of a number of susceptible plant species and genera from the USA, requiring such material to be accompanied by phytosanitary certificates which may be issued only after specific checks have been carried out during production and before consignment; or alternatively, where the material originates in a part of the USA recognised by plant health authorities as free from *Phytophthora ramorum*, confirming that fact (article 4

rhydd o *Phytophthora ramorum*, yn dystysgrifau sy'n cadarnhau hynny (erthygl 4 ac Atodlen 1).

Rhaid i ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla ac a fewnforir o drydydd gwledydd, gan gynnwys UDA, gael pasbort planhigion pan y'i symudir o fewn Cymru neu o fewn lle arall yn y Gymuned Ewropeaidd ("y GE") neu'r Swistir (erthygl 5).

Pan gânt eu symud, rhaid i basbort planhigion fynd gyda phlanhigion *Camellia, Rhododendron* a *Viburnum* a gynhyrchir yng Nghymru neu sy'n tarddu yn unrhyw le arall yn y GE neu'r Swistir, ac mae'r planhigion yn ddarostyngedig i reolaethau pellach ar eu symud (erthygl 6 ac Atodlen 2).

Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr *Camellia, Rhododendron* a *Viburnum* yng Nghymru sy'n dymuno symud y cyfryw ddeunydd gael eu cofrestru os nad ydynt eisoes wedi'u cofrestru o dan y prif Orchymyn Iechyd Planhigion (Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993, fel y'i diwygiwyd) ("y prif Orchymyn") (erthygl 7). Mae rhai eithriadau i'r cyfyngiadau ar symud yn achos personau nad ydynt wrth eu gwaith yn masnachu neu'n rhedeg busnes neu ymgymeriad (erthygl 7(4)).

Mae darpariaethau tebyg i'r rhai sydd yn y prif Orchymyn yn gymwys i awdurdodiadau i fasnachwyr cofrestredig i'w galluogi i ddyroddi pasbortau planhigion o dan arolygaeth y Cynulliad Cenedlaethol, sef y gwasanaeth iechyd planhigion swyddogol yng Nghymru (erthygl 8) ac yn gymwys i ddyroddi tystysgrifau ffytoiechydol yng Nghymru ac i drin tystysgrifau ffytoiechydol neu basportau planhigion a ddyroddir y tu allan i Gymru (erthyglau 9 a 10).

Mae darpariaeth ar gyfer mewnforio, symud a chadw'r pla gwaharddedig o dan dystysgrif at ddibenion ymchwil (erthygl 11).

Mae darpariaethau tebyg i'r rhai a geir yn y prif Orchymyn yn gymwys i gamau a allai fod yn ofynnol neu y caiff Arolygwyr Iechyd Planhigion eu cymryd (erthyglau 12 i 14).

Caiff tramgwyddau tebyg i'r rhai a gaiff eu creu yn y prif Orchymyn eu creu o ran cynhyrchu pasbortau planhigion yn unol â'r Gorchymyn hwn ac o ran dod â *Phytophthora ramorum* i mewn, ei ledaenu a'i symud, ac o ran cydymffurfio â hysbysiadau a gyflwynir o dan y Gorchymyn hwn a rhwystro arolygwyr sy'n arfer eu pwerau o dan y Gorchymyn hwn (erthygl 15).

Dirymir Gorchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) (Rhif 2) 2002 (OS 2002/2762) (erthygl 16).

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi o ran y Gorchymyn hwn. Gellir cael copïau gan yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

and Schedule 1).

Susceptible material imported from third countries, including the USA, must have a plant passport when it is moved within Wales or elsewhere in the European Community ("the EC") or Switzerland (article 5).

Plants of *Camellia, Rhododendron* and *Viburnum* produced in Wales or originating anywhere else in the EC or Switzerland, must be accompanied by a plant passport when they are moved, and are subject to further controls on their movement (article 6 and Schedule 2).

The Order requires producers of *Camellia, Rhododendron* and *Viburnum* in Wales wishing to move such material to be registered if they are not already registered under the principal Plant Health Order (the Plant Health (Great Britain) Order 1993, as amended) ("the principal Order") (article 7). There are some exceptions to the movement restrictions in the case of persons not acting in the course of a trade, business or undertaking (article 7(4)).

Provisions similar to those in the principal Order apply to authorisations to registered traders to enable them to issue plant passports under the supervision of the Assembly, as the official plant health service in Wales (article 8) and to the issue of phytosanitary certificates in Wales and the treatment of phytosanitary certificates or plant passports issued outside Wales (articles 9 and 10).

There is provision for licensed importation, movement and keeping of the prohibited pest for research purposes (article 11).

Provisions similar to those in the principal Order apply to actions which may be required or which may be taken by Plant Health Inspectors (articles 12 to 14).

Offences similar to those created in the principal Order are created in respect of the production of plant passports pursuant to this Order and in respect of the introduction, spread and movement of *Phytophthora ramorum*, compliance with notices served under this Order and the obstruction of inspectors exercising their powers under this Order (article 15).

The Plant Health (*Phytophthora ramorum*) (Wales ) (No. 2) Order 2002 (SI 2002/2762) is revoked (article 16).

A regulatory appraisal has been prepared in respect of this Order. Copies can be obtained from the Department for Environment, Planning and Countryside, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3 NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1344 (Cy.134)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *16 Mai 2006* |
| *Yn dod i rym* | *24 Mai 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2, 3(1), (2)(b) a (4) a 4(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2006 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Mai 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**.Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw unrhyw berson a awdurdodwyd i fod yn arolygydd at ddibenion y prif Orchymyn;

(**1**) 1967 p.8; diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) a (2) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68), adran 4(1) ac Atodlen 4, paragraff 8; amnewidiwyd adran 3(4) gan adran 42 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p.48) a'i diwygio ymhellach gan adran 17(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p.53).

(**2**) Mae adran 1(2)(b) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 yn darparu mai'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yw'r awdurdod cymwys yng Nghymru a Lloegr at ddibenion y Ddeddf honno. Yn rhinwedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn o eiddo'r Ysgrifennydd Gwladol wedyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1344 (W.134)

# PLANT HEALTH, WALES

## The Plant Health (*Phytophthora ramorum*) (Wales) Order 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *16 May 2006* |
| *Coming into force* | *24 May 2006* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 2, 3(1), (2)(b) and (4) and 4(1) of the Plant Health Act 1967(**1**) and now vested in the National Assembly for Wales(**2**), makes the following Order:

**Title, commencement and application**

**1**.-(1) The title of this Order is the Plant Health (*Phytophthora ramorum*) (Wales) Order 2006 and this Order comes into force on 24 May 2006.

(2) This Order applies in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**. In this Order-

"European Community" ("*y Gymuned Ewropeaidd*") has the same meaning as in the principal Order;

(**1**) 1967 c.8; sections 2(1) and 3(1) and (2) were amended by the European Communities Act 1972 (c.68), section 4(1) and Schedule 4, paragraph 8; section 3(4) was substituted by section 42 of the Criminal Justice Act 1982 (c.48) and further amended by section 17(1) of the Criminal Justice Act 1991 (c.53).

(**2**) Section 1(2)(b) of the Plant Health Act 1967 provides that the competent authority in England and Wales for the purposes of that Act is the Minister of Agriculture, Fisheries and Food. By virtue of the Transfer of Functions (Wales) (No. 1) Order 1978 (S.I. 1978/272), article 2(1) and Schedule 1, the functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food under the Plant Health Act 1967 were, so far as they are exercisable in relation to Wales, transferred to the Secretary of State for Wales. These functions of the Secretary of State were then transferred to the National Assembly for Wales under the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999/672).

mae i "coeden" yr ystyr sydd i "*tree*" yng Ngorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Prydain Fawr) 1993(**1**);

ystyr "coeden sy'n dueddol o gael y pla" ("*susceptible tree*") yw coeden, ac eithrio ffrwyth neu hadau, o'r rhywogaeth a'r genera a restrir yng ngholofn gyntaf Atodlen 1;

ystyr "cynnyrch planhigion" ("*plant product*") yw cynnyrch sy'n dod o blanhigyn ac na chafodd ei brosesu neu a gafodd ei baratoi'n syml i'r graddau nad planhigyn ydyw;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "deunydd sy'n dueddol o gael y pla" ("*susceptible material*") yw-

(a) yn achos deunydd sy'n tarddu yn Unol Daleithiau America ("*UDA*"), planhigion, ac eithrio ffrwyth neu hadau, o'r rhywogaeth a'r genera a restrir yng ngholofn gyntaf Atodlen 1, a

(b) ym mhob achos arall, planhigion *Camellia* spp., *Rhododendron* spp. L., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch., a *Viburnum* spp. L., ac eithrio hadau, y bwriedir eu plannu;

mae i "y Gymuned Ewropeaidd" yr ystyr sydd i "*European Community*" yn y prif Orchymyn;

mae i "man cynhyrchu" yr ystyr sydd i "*place of production*" yn y prif Orchymyn;

mae i "mangre" yr ystyr sydd i "*premises*" yn y prif Orchymyn;

ystyr "pasbort planhigion" ("*plant passport*") yw naill ai-

(a) label a dogfen, pan fo'n briodol, sy'n mynd gyda phlanhigyn, ac a ddyroddir yn y Gymuned Ewropeaidd ac sy'n cynnwys yr wybodaeth berthnasol yn Atodlen 9 i'r Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993 ("y prif Orchymyn") sef yr wybodaeth y ceir ynddi dystiolaeth o gydymffurfio â darpariaethau'r Gorchymyn hwn sy'n ymwneud â safonau iechyd planhigion a gofynion arbennig ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion sy'n cael eu symud o fewn yr Undeb Ewropeaidd, neu

(b) ac eithrio at ddibenion erthygl 8(1), pasbort planhigion y Swistir;

ystyr "pasbort planhigion y Swistir" ("*Swiss plant passport*") yw label a dogfen, pan fo'n briodol, sy'n mynd gyda phlanhigyn, ac a ddyroddir yn y Swistir

"inspector" ("*arolygydd*") means any person authorised to be an inspector for the purposes of the principal Order;

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"origin" ("*tarddle*") means, in respect of susceptible material, the place where the material is grown or produced, and "originating" is to be construed accordingly;

"*Phytophthora ramorum*" refers to the pest *Phytophthora ramorum* Werres, De Cock & Man in `t Veld sp. nov;

"phytosanitary certificate" ("*tystysgrif ffytoiechydol*") means a certificate duly completed either-

(a) in the form set out in Schedule 14 of the principal Order; or

(b) the equivalent

"place of production" ("*man cynhyrchu*") has the same meaning as in the principal Order;

"plant" ("*planhigyn*") has the same meaning as in the principal Order;

"plant passport" ("*pasbort planhigion*") means either-

(a) a label and, where appropriate, an accompanying document, issued in the European Community containing the relevant information in Schedule 9 to the Plant Health (Great Britain) Order 1993 ("the Principal Order") which gives evidence that the provisions of this Order relating to plant health standards and special requirements for plants and plant products moving within the European Community have been complied with, or

(b) except for the purposes of article 8(1), a Swiss plant passport;

"plant product" ("*cynnyrch planhigion*") means a product of plant origin, which is unprocessed or has undergone simple preparation insofar as it is not a plant;

"premises" ("*mangre*") has the same meaning as in the principal Order;

"the principal Order" ("*y prif Orchymyn*") means the Plant Health (Great Britain) Order 1993(**1**);

"reforwarding phytosanitary certificate" ("*tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer anfon ymlaen*")

---

(**1**) O.S. 1993/1283, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn gymwys i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) S.I. 1993/1320; amended by S.I. 1993/3213, 1995/1358 and 2929, 1996/25, 1165 and 3242, 1997/1145 and 2907, 1998/349, 1121 and 2245 and 1999/2126 and 2726, 2001/2343, 2002/1067, 2003/1157 and 2004/2365.

yn unol â deddfwriaeth y Swistir-

(a) ac sy'n cynnwys gwybodaeth y ceir ynddi dystiolaeth o gydymffurfio â deddfwriaeth yn y Swistir sy'n ymwneud â safonau iechyd planhigion a gofynion arbennig ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion sy'n cael eu symud i'r Swistir ac o fewn y Swistir;

(b) ac sy'n ymwneud â phlanhigyn *Camellia* spp., *Rhododendron* spp. L., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch. neu *Viburnum* spp. L. y bwriedir ei blannu;

mae "*Phytophthora ramorum*" yn cyfeirio at y pla *Phytophthora ramorum* Werres, De Cock & Man in `t Veld sp. nov;

mae i "planhigyn" yr ystyr sydd i "*plant*" yn y prif Orchymyn;

ystyr "y prif Orchymyn" ("*the principal Order*") yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993(**1**);

ystyr "tarddle" ("*origin*"), o ran deunydd sy'n dueddol o gael y pla, yw'r lle y tyfir neu y cynhyrchir y deunydd, ac mae "yn tarddu yn/o" i'w ddehongli yn unol â hynny;

mae i "trydedd wlad" yr ystyr sydd i "*third country*" yn y prif Orchymyn;

ystyr "tystysgrif ffytoiechydol" ("*phytosanitary certificate*") yw tystysgrif wedi'i chwblhau'n briodol naill ai-

(a) ar y ffurf a geir yn Atodlen 14 o'r prif Orchymyn; neu

(b) ei gyfatebol;

ystyr "tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer anfon ymlaen" ("*reforwarding phytosanitary certificate*") yw tystysgrif wedi'i chwblhau'n briodol naill ai-

(a) ar y ffurf a geir yn Atodlen 15 o'r prif Orchymyn; neu

(b) ei gyfatebol.

(**1**) O.S. 1993/1320; a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/3213, 1995/1358 a 2929, 1996/25, 1165 a 3242, 1997/1145 a 2907, 1998/349, 1121 a 2245 a 1999/2126 a 2726, 2001/2343, 2002/1067, 2003/1157 a 2004/2365.

means a certificate duly completed either-

(a) in the form set out in Schedule 15 of the principal Order; or

(b) the equivalent;

"susceptible tree" ("*coeden sy'n dueddol o gael y pla*" ) means a tree, excluding fruit or seeds, of the species and genera listed in the first column of Schedule 1;

"susceptible material" ("*deunydd sy'n dueddol o gael y pla*") means-

(a) in the case of material originating in the United States of America ("USA"), plants, other than fruit or seeds, of the species and genera listed in the first column of Schedule 1, and

(b) in all other cases, plants, other than seeds, intended for planting of *Camellia* spp., *Rhododendron* spp. L., other than *Rhododendron simsii* Planch., and *Viburnum* spp. L.;

"Swiss plant passport" ("*pasbort planhigion y Swistir*") means a label and, where appropriate, an accompanying document, issued in Switzerland in accordance with Swiss legislation which-

(a) contains information which gives evidence that the legislation in Switzerland relating to plant health standards and special requirements for plants and plant products moving into and within Switzerland have been complied with; and

(b) relates to a plant intended for planting of *Camellia* spp., *Rhododendron* spp. L., other than *Rhododendron simsii* Planch. or *Viburnum* spp. L.;

"third country" ("*trydedd wlad*") has the same meaning as in the principal Order; and

"tree" ("*coeden*") has the same meaning as in the Plant Health (Forestry) (Great Britain) Order 1993(**1**).

(**1**) S.I. 1993/1283, to which there are amendments not relevant to this Order.

**Gwaharddiad rhag dod â *Phytophthora ramorum* i Gymru a'i ledaenu o fewn Cymru**

**3**. Yn ddarostyngedig i erthygl 11, rhaid i berson beidio â-

(a) dod â *Phytophthora ramorum* i Gymru; neu

(b) lledaenu *Phytophthora ramorum* o fewn Cymru.

**Mewnforio deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n tarddu yn UDA**

**4**. Yn ddarostyngedig i erthygl 11, rhaid i berson beidio â mewnforio(**1**) i Gymru ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n tarddu yn UDA oni-

(a) bydd-

(i) tystysgrif ffytoiechydol yn mynd gydag ef a honno'n dystysgrif a ddyroddwyd yn unol â gofynion Atodlen 1 neu, yn achos deunydd y dyroddwyd hefyd dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer anfon ymlaen ar ei gyfer, gopi wedi'i ardystio o'r dystysgrif ffytoiechydol; a

(ii) arolygydd, o archwilio'r deunydd, yn canfod ei fod yn glir o *Phytophthora ramorum*; neu

(b) bydd pasbort planhigion y Swistir yn mynd gyda'r deunydd mewn achosion o fewnforio o'r Swistir blanhigion *Camellia* spp., *Rhododendron* spp. L., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch., a *Viburnum* spp. L., ac eithrio hadau, y bwriedir eu plannu.

**Symud deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n tarddu mewn trydydd gwledydd**

**5**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) ac erthygl 11, pan fydd deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n tarddu yn UDA neu yn unrhyw drydedd wlad arall wedi'i fewnforio i Gymru, rhaid i berson beidio â symud y deunydd hwnnw-

(a) o fewn Cymru;

(b) i ran arall o'r Deyrnas Unedig;

(c) i Ynys Manaw neu i Ynysoedd y Sianel;

(ch) i Aelod-wladwriaeth arall; nac

(d) i'r Swistir, yn achos planhigion *Camellia* spp., *Rhododendron* spp. L., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch., a *Viburnum* spp. L., ac eithrio hadau, y bwriedir eu plannu,

oni bai bod pasbort planhigion yn mynd gydag ef .

(**1**) Mae adran 49 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (p. 2) yn darparu ar gyfer fforffedu nwyddau a gafodd eu mewnforio, eu glanio neu eu dadlwytho yn amhriodol. Mae adran 50 yn gwneud mewnforio, glanio neu ddadlwytho nwyddau gyda'r bwriad o osgoi'r gwaharddiad a geir yn yr erthygl hon yn dramgwydd.

**Prohibition against the introduction and spread of *Phytophthora ramorum* into and within Wales**

**3**. Subject to article 11, a person must not-

(a) introduce *Phytophthora ramorum* into Wales; or

(b) spread *Phytophthora ramorum* within Wales.

**Imports of susceptible material originating in the USA**

**4**. Subject to article 11, a person must not import(**1**) into Wales susceptible material originating in the USA unless-

(a) it is-

(i) accompanied by a phytosanitary certificate issued in accordance with the requirements of Schedule 1 or, in the case of material for which a reforwarding phytosanitary certificate has also been issued, a certified copy of the phytosanitary certificate; and

(ii) found free from *Phytophthora ramorum* upon examination by an inspector; or

(b) in the case of imports from Switzerland of plants, other than seeds, intended for planting of *Camellia* spp., *Rhododendron* spp. L., other than *Rhododendron simsii* Planch., and *Viburnum* spp. L., the material is accompanied by a Swiss plant passport.

**Movement of susceptible material originating in third countries**

**5**.-(1) Subject to paragraph (2) and article 11, where susceptible material originating in the USA or in any other third country has been imported into Wales, a person must not move that material-

(a) within Wales;

(b) to another part of the United Kingdom;

(c) to the Isle of Man or the Channel Islands;

(d) to another Member State; or

(e) in the case of plants, other than seeds, intended for planting of *Camellia* spp., *Rhododendron* spp. L., other than *Rhododendron simsii* Planch., and *Viburnum* spp. L., to Switzerland,

unless it is accompanied by a plant passport.

(**1**) Section 49 of the Customs and Excise Management Act 1979 (c. 2) provides for forfeiture of goods improperly imported, landed or unloaded. Section 50 makes it an offence to import, land or unload goods with intent to evade the prohibition contained in this article.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys yn achos symud deunydd sy'n dueddol o gael y pla o fewn Cymru os bydd ei symud yn cydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir o dan erthygl 12.

**Symud deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n tarddu yng Nghymru neu mewn man arall yn y Gymuned Ewropeaidd neu yn y Swistir**

**6**.-(1) Yn ddarostyngedig i erthygl 11, rhaid i berson beidio â symud i Gymru ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n tarddu-

(a) mewn man arall yn y Deyrnas Unedig;

(b) mewn Aelod-wladwriaeth arall;

(c) yn Ynys Manaw neu yn Ynysoedd y Sianel; neu

(ch) yn y Swistir, yn achos planhigion *Camellia* spp., *Rhododendron* spp. L., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch., a *Viburnum* spp. L., ac eithrio hadau, y bwriedir eu plannu,

oni bai bod pasbort planhigion yn mynd gydag ef a'i fod yn bodloni gofynion Atodlen 2.

(2) Rhaid i berson sydd wrth ei waith yn masnachu, neu'n rhedeg busnes neu ymgymeriad arall beidio â symud deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac a gynhyrchir yng Nghymru o'r man cynhyrchu onid oes pasbort planhigion yn mynd gyda'r deunydd a'i fod yn bodloni gofynion Atodlen 2.

**Cynhyrchwyr cofrestredig**

**7**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i berson sy'n cynhyrchu deunydd sy'n dueddol o gael y pla beidio â symud y deunydd hwnnw onid yw wedi'i gofrestru'n gynhyrchydd yn unol ag erthyglau 15 ac 16 o'r prif Orchymyn neu baragraff (2) o'r erthygl hon.

(2) O ran cynhyrchydd deunydd sy'n dueddol o gael y pla nad yw wedi'i gofrestru'n gynhyrchydd o dan y prif Orchymyn-

(a) caiff wneud cais am gael ei gofrestru o dan erthyglau 15 ac 16 o'r prif Orchymyn fel pe bai darpariaeth ar gyfer ei gais yn y Gorchymyn hwnnw;

(b) rhaid iddo fodloni'r gofynion yn erthyglau 15 ac 16 o'r prif Orchymyn fel pe bai ei gais wedi'i wneud o dan y Gorchymyn hwnnw; ac

(c) rhaid iddo gael ei drin gan y Cynulliad Cenedlaethol, o ran y cyfryw gais ac unrhyw gofrestriad o ganlyniad iddo, fel pe bai darpariaeth ar gyfer y cais yn y prif Orchymyn.

(3) Rhaid i unrhyw berson sydd wedi'i gofrestru'n gynhyrchydd yn unol â pharagraff (1) roi hysbysiad o unrhyw achos a amheuir o *Phytophthora ramorum* neu o bresenoldeb *Phytophthora ramorum* a gadarnhawyd yn y man cynhyrchu y mae'r person wedi'i gofrestru mewn perthynas ag ef.

(2) Paragraph (1) does not apply in the case of movement of susceptible material within Wales where such movement is in compliance with a notice served under article 12.

**Movement of susceptible material originating in Wales and elsewhere in the European Community or Switzerland**

**6**.-(1) Subject to article 11, a person must not move into Wales susceptible material originating-

(a) elsewhere in the United Kingdom;

(b) in another Member State;

(c) in the Isle of Man or Channel Islands; or

(d) in the case of plants, other than seeds, intended for planting of *Camellia* spp., *Rhododendron* spp. L., other than *Rhododendron simsi*i Planch., and *Viburnum* spp. L., in Switzerland,

unless it is accompanied by a plant passport and meets the requirements of Schedule 2.

(2) A person acting in the course of a trade, business or other undertaking must not move susceptible material produced in Wales from its place of production unless the material is accompanied by a plant passport and meets the requirements of Schedule 2.

**Registered producers**

**7**.-(1) Subject to paragraph (4), a person who produces susceptible material must not move that material unless he or she is registered as a producer pursuant to articles 15 and 16 of the principal Order or paragraph (2) of this article.

(2) A producer of susceptible material who is not registered as a producer under the principal Order-

(a) may apply for registration under articles 15 and 16 of the principal Order as if his or her application were provided for by that Order;

(b) must meet the requirements of articles 15 and 16 of the principal Order as if his or her application had been made under that Order; and

(c) must be treated by the National Assembly, in respect of such an application and any consequent registration, as if the application were provided for by the principal Order.

(3) Any person who is registered as a producer in accordance with paragraph (1) must notify any suspected occurrence or confirmed presence of *Phytophthora ramorum* at the place of production to which their registration relates.

(4) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i bersonau sy'n cynhyrchu deunydd sy'n dueddol o gael y pla neu sy'n symud deunydd sy'n dueddol o gael y pla y maent wedi'i gynhyrchu os ydynt yn gwneud hynny heb fod wrth eu gwaith yn masnachu, neu'n rhedeg busnes neu ymgymeriad arall.

**Pasbortau planhigion**

**8**.-(1) Mae erthyglau canlynol y prif Orchymyn yn gymwys o ran pasbortau planhigion sy'n ofynnol o dan erthyglau 5 neu 6, fel sy'n briodol, o'r Gorchymyn hwn-

(a) erthygl 11(3), fel pe bai -

(i) tystysgrif ffytoiechydol wedi'i dyroddi o ran deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac a oedd yn cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn; a

(ii) cyfeiriad at "Ran A o Atodlen 5" o'r prif Orchymyn yn gyfeiriad at erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn;

(b) erthygl 14(1), fel pe bai'r pasbort planhigion wedi'i ddyroddi o ran deunydd sy'n dueddol o gael y pla; ac

(c) erthygl 14(2) i (8).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae person sydd wedi'i awdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan erthygl 17 o'r prif Orchymyn i gynhyrchu, storio a dyroddi pasbortau planhigion ar ran busnes hefyd wedi'i awdurdodi o dan y Gorchymyn hwn i gynhyrchu, storio a dyroddi pasbortau planhigion sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwn ar ran y busnes hwnnw.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y gwêl yn dda eu gosod, awdurdodi person nas awdurdodwyd o dan baragraff (2), i gynhyrchu, storio a dyroddi pasbortau planhigion sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwn ar ran unrhyw fusnes, unigolyn neu gorff arall,-

(a) os yw'r person sy'n gofyn am gael ei awdurdodi wedi'i gofrestru'n gynhyrchydd deunydd sy'n dueddol o gael y pla o dan erthygl 7; a

(b) os bod arolygiad boddhaol wedi'i wneud gan arolygydd o fan cynhyrchu'r deunydd sy'n dueddol o gael y pla a bod hwnnw'n fan y ceisir awdurdod mewn cysylltiad ag ef, neu o unrhyw ran o'r fan, neu o unrhyw fangre arall sy'n trafod unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla, a hynny at ddibenion canfod, o ran *Phytophthora ramorum*, statws iechyd planhigion y deunydd sy'n dueddol o gael y pla, yn y lle hwnnw neu'r fangre honno, ac unrhyw blanhigion neu gynhyrchion planhigion sydd yno.

(4) This article does not apply to persons who produce susceptible material or who move susceptible material which they have produced if they do so other than in the course of a trade, business or other undertaking.

**Plant passports**

**8**.-(1) The following articles of the principal Order apply in respect of a plant passport required under articles 5 or 6, as appropriate, of this Order-

(a) article 11(3), as if -

(i) a phytosanitary certificate had been issued in respect of susceptible material which complied with this Order; and

(ii) reference to "Part A of Schedule 5" of the principal Order were to article 5 of this order;

(b) article 14(1), as if the plant passport were issued in respect of susceptible material; and

(c) article 14(2) to (8).

(2) Subject to paragraph (4), a person who holds the National Assembly's authority under article 17 of the principal Order to produce, store and issue plant passports on behalf of a business is also authorised under this Order to produce, store and issue plant passports required under this Order on behalf of that business.

(3) A person not authorised under paragraph (2) may be authorised by the National Assembly, subject to any conditions it sees fit, to produce, store and issue plant passports required under this Order on behalf of any business, individual or other organisation, if-

(a) the person seeking authority is registered as a producer of susceptible material under article 7; and

(b) a satisfactory inspection has been carried out by an inspector of the place of production of susceptible material in respect of which authority is sought, any part thereof or any other premises handling any susceptible material, for the purposes of ascertaining the plant health status of the susceptible material at that place or those premises in relation to *Phytophthora ramorum* and any plants or plant products there.

(4) Caiff arolygydd dynnu'n ôl awdurdod a roddir i berson o dan baragraff (2) neu (3) i gynhyrchu, storio a dyroddi pasbortau planhigion sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwn os yw'r arolygydd wedi'i fodloni nad yw'r person hwnnw'n bodloni darpariaethau'r Gorchymyn hwn o ran pasbortau planhigion.

**Tystysgrifau ffytoiechydol**

**9**.-(1) Mae darpariaethau canlynol y prif Orchymyn yn gymwys i dystysgrif ffytoiechydol sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwn-

(a) erthygl 12(1);

(b) erthygl 12(4) fel be bai cyfeiriadau at y prif Orchymyn yn gyfeiriadau at y Gorchymyn hwn;

(c) erthygl 12(5) a (6);

(ch) erthygl 12(7) fel pe bai deunydd sy'n dueddol o gael y pla yn blanhigion, o fewn yr ystyr sydd i "plants" yn yr erthygl honno; a

(d) erthygl 13.

(2) Os traddodwyd, i drydedd wlad nad hi yw'r wlad y dyroddwyd y dystysgrif ynddi, lwyth o ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla ac y mae tystysgrif ffytoiechydol yn ofynnol ar ei gyfer ac wedi'i dyroddi yn unol ag erthygl 4 ac os cafodd y deunydd ei storio, ei ailbacio neu ei rannu yn y drydedd wlad honno, rhaid i'r dystysgrif ffytoiechydol wreiddiol neu gopi ohoni sydd wedi'i ardystio fynd gyda'r deunydd ynghyd â thystysgrif ffytoiechydol ar gyfer anfon ymlaen a ddyroddir gan wasanaeth iechyd planhigion swyddogol y drydedd wlad honno.

**Tystysgrifau ffytoiechydol neu basportau planhigion a ddyroddir y tu allan i Gymru**

**10**.-(1) Rhaid tybio bod unrhyw dystysgrif ffytoiechydol a ddyroddir at ddibenion y Gorchymyn hwn neu gydag awdurdod gwasanaeth iechyd planhigion swyddogol trydedd wlad wedi'i dyroddi'n unol â gofynion perthnasol Atodlen 1.

(2) Rhaid tybio bod unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla ac y dyroddwyd pasbort planhigion iddo at ddibenion y Gorchymyn hwn neu ddeddfwriaeth gyfatebol yn y wlad lle y'i dyroddwyd gan neu gydag awdurdod gwasanaeth iechyd planhigion swyddogol Aelod-wladwriaeth neu ran arall o'r Deyrnas Unedig neu Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw yn bodloni gofynion Atodlen 2.

(3) Rhaid tybio bod unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla ac y dyroddwyd iddo basbort planhigion y Swistir gan neu gydag awdurdod gwasanaeth iechyd planhigion swyddogol yn y Swistir yn bodloni gofynion Atodlen 2.

(4) Authority conferred upon a person under paragraphs (2) or (3) to produce, store and issue plant passports required under this Order may be withdrawn by an inspector where the inspector is satisfied that the provisions of this Order in respect of plant passports are not being met by that person.

**Phytosanitary certificates**

**9**.-(1) The following provisions of the principal Order apply to a phytosanitary certificate required under this Order-

(a) article 12(1);

(b) article 12(4) as if references to the principal Order were to this Order;

(c) article 12(5) and (6);

(d) article 12(7) as if susceptible material were "plants" within the meaning of that article; and

(e) article 13.

(2) Where a consignment of susceptible material for which a phytosanitary certificate is required and has been issued pursuant to article 4 has been consigned to, stored, repacked or split up in a third country other than that in which the certificate was issued, the original phytosanitary certificate or a certified copy of it must accompany the material together with a reforwarding phytosanitary certificate issued by the official plant health service of that third country.

**Phytosanitary certificates or plant passports issued outside Wales**

**10**.-(1) Any phytosanitary certificate issued for the purposes of this Order by or with the authority of an official plant health service of a third country must be deemed to have been issued in accordance with the relevant requirements of Schedule 1.

(2) Any susceptible material for which a plant passport has been issued for the purposes of this Order or equivalent legislation in the country of issue by or with the authority of an official plant health service of a Member State or another part of the United Kingdom or the Channel Islands or Isle of Man, must be deemed to meet the requirements of Schedule 2.

(3) Any susceptible material for which a Swiss plant passport has been issued by or with the authority of an official plant health service of Switzerland, must be deemed to meet the requirements of Schedule 2.

**Trwyddedau at ddibenion gwyddonol neu ddibenion ymchwil**

**11**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i ddarpariaethau erthygl 30A o'r prif Orchymyn fod yn gymwys o ran mewnforio, symud a chadw *Phytophthora ramorum*, neu unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla ac y mae *Phytophthora ramorum* yn bresennol arno, a fyddai fel arall wedi'i wahardd o dan y Gorchymyn hwn, fel pe bai ef neu'r deunydd yn bla planhigion y byddai ei fewnforio, ei symud neu ei gadw yn waharddedig, pe na bai am drwydded a roddwyd o dan y prif Orchymyn.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) yn effeithio ar gymhwyso erthygl 30A(2)(d) o'r prif Orchymyn o ran trwydded a roddwyd yn rhinwedd yr erthygl hon.

**Camau y caiff arolygydd eu gwneud yn ofynnol**

**12**.-(1) Os bydd gan arolygydd sail resymol dros amau bod *Phytophthora ramorum* yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol yn unrhyw fangre, caiff yr arolygydd, at ddibenion gorfodi erthygl 3(b), drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i feddiannydd y fangre neu i berson arall â gofal am y fangre neu am y deunydd sy'n dueddol o gael y pla-

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw faint o'r deunydd sy'n dueddol o gael y pla gael ei drin, ei ddifa neu ei waredu mewn ffordd arall ac yn y cyfryw fodd ac o fewn y cyfryw amser rhesymol ag a fyddo'n cael eu pennu yn yr hysbysiad;

(b) gwahardd symud y deunydd sy'n dueddol o gael y pla o fangre a bennir yn yr hysbysiad neu osod y cyfryw waharddiadau eraill ag sy'n angenrheidiol ym marn yr arolygydd i rwystro lledaenu *Phytophthora ramorum*;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r deunydd sy'n dueddol o gael y pla gael ei symud i fangre a bennir yn yr hysbysiad yn y cyfryw fodd ac o fewn y cyfryw amser rhesymol ag a fyddo'n cael eu pennu felly; neu

(ch) ei gwneud yn ofynnol bod y cyfryw gamau eraill, a bennir yn yr hysbysiad, yn cael eu cymryd yn y cyfryw fodd ac o fewn y cyfryw amser rhesymol ag a fyddo'n cael eu pennu yn yr hysbysiad ac sydd yn angenrheidiol ym marn yr arolygydd i rwystro lledaenu *Phytophthora ramorum*.

(2) Os oes gan arolygydd sail resymol dros gredu ei bod yn angenrheidiol at ddiben rhwystro lledaenu *Phytophthora ramorum* o unrhyw fangre neu sicrhau ei fod yn cael ei ddifa yn unrhyw fangre, caiff yr arolygydd drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i feddiannydd unrhyw fangre arall neu i berson arall â gofal amdani osod y cyfryw waharddiadau a'i gwneud yn ofynnol bod y cyfryw gamau rhesymol, a bennir yn yr hysbysiad, ac sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol at y diben hwnnw, yn cael eu cymryd a hynny yn y

**Licences for scientific or research purposes**

**11**.-(1) Subject to paragraph (2), the provisions of article 30A of the principal Order must apply in respect of the importation, movement and keeping of *Phytophthora ramorum*, or any susceptible material on which *Phytophthora ramorum* is present, which would otherwise be prohibited under this Order as if it or the material were a plant pest, the importation, movement or keeping of which, but for a licence granted under the principal Order, would be prohibited.

(2) Nothing in paragraph (1) affects the application of article 30A(2)(d) of the principal Order in respect of a licence granted by virtue of this article.

**Actions which may be required by an inspector**

**12**.-(1) If an inspector has reasonable grounds for suspecting that *Phytophthora ramorum* is present or likely to be present on any premises, he or she may, for the purposes of enforcing article 3(b), by notice in writing served on the occupier or other person in charge of the premises or of the susceptible material-

(a) require any of the susceptible material to be treated, destroyed or otherwise disposed of in such manner and within such reasonable time as may be specified in the notice;

(b) prohibit the removal of the susceptible material from premises specified in the notice or impose such other prohibitions as appear to the inspector to be necessary to prevent the spread of *Phytophthora ramorum*;

(c) require the removal of the susceptible material to premises specified in the notice in such manner and within such reasonable time as may be so specified; or

(d) require the taking of such other steps, specified in the notice, in such manner and within such reasonable time as may be specified in the notice, as appear to the inspector to be necessary to prevent the spread of *Phytophthora ramorum*.

(2) If an inspector has reasonable grounds for believing that it is necessary for the purpose of preventing the spread of or ensuring the eradication of *Phytophthora ramorum* from any premises, he or she may by notice in writing served on the occupier or other person in charge of any other premises impose such prohibitions and require the taking of such reasonable steps, specified in the notice, as appear to him or her to be necessary for that purpose, such steps to be taken in such manner and in such reasonable time

cyfryw fodd ac o fewn y cyfryw amser rhesymol ag a fyddo'n cael eu pennu yn yr hysbysiad.

(3) At ddiben cyflawni archwiliad o ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla wrth iddo ddod i Gymru caiff arolygydd, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i draddodai unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla ac a gafodd ei fewnforio neu sydd i'w fewnforio i Gymru, bennu mangre a'i gwneud yn ofynnol i'r deunydd hwnnw gael ei symud i'r fangre honno yn y cyfryw fodd ac o fewn y cyfryw gyfnod ag a fyddo'n cael eu pennu yn yr hysbysiad.

**Camau y caiff arolygydd eu cymryd**

**13**.-(1) Heb ragfarn yn erbyn y darpariaethau yn erthygl 12, ac yn ddarostyngedig i baragraff (3), os bydd gan arolygydd sail resymol dros amau bod *Phytophthora ramorum* yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol yn unrhyw fangre, caiff yr arolygydd, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol o'i fwriad i feddiannydd y fangre neu i berson arall â gofal amdani, ac o ddangos os gofynnir iddo wneud hynny, arwydd o'i awdurdod, fynd i'r cyfryw fangre a chymryd camau naill ai yn y fangre honno neu yn rhywle arall-

(a) i ddifa neu drin mewn rhyw ffordd unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla ac a ganfyddir yn y fangre honno; neu

(b) i ddifa *Phytophthora ramorum* a ganfyddir yn y fangre honno a rhwystro'i ledaenu.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), caiff arolygydd, o gyflwyno, os gofynnir iddo wneud hynny, arwydd o'i awdurdod, ar bob adeg resymol ac at ddiben canfod a oes *Phytophthora ramorum* yn bodoli yn unrhyw fangre, neu at unrhyw un o ddibenion eraill y Gorchymyn hwn, gan gynnwys gwirio a gydymffurfir ag ef, fynd i unrhyw fangre-

(a) i archwilio, tynnu ffotograff neu farcio unrhyw ran o'r fangre neu unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla neu wrthrych yn y fangre;

(b) i gymryd samplau o unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla neu wrthrych arall ac unrhyw beth sydd wedi bod mewn cyffyrddiad neu a allai fod wedi bod mewn cyffyrddiad â *Phytophthora ramorum*; neu

(c) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw ddogfennau neu gofnodion (ar ba ffurf bynnag y byddont yn cael eu cadw) sy'n ymwneud â chynhyrchu neu fasnachu unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla yn cael eu cyflwyno a chaiff archwilio a chopïo'r cyfryw ddogfennau neu gofnodion.

(3) Ni chaniateir arfer y pŵer i fynd i fangre, sef pŵer a roddir gan baragraffau (1) a (2), o ran mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd, ond yn unol â gwarant a roddir o dan erthygl 28 o'r prif Orchymyn.

as may be specified in the notice.

(3) For the purposes of carrying out an examination of susceptible material upon its entry to Wales an inspector may, by notice in writing served on the consignee of any susceptible material which has been or is to be imported into Wales, specify premises and require the removal of that material to those premises in such manner and within such period as may be specified in the notice.

**Actions which may be taken by an inspector**

**13**.-(1) Without prejudice to the provisions in article 12, and subject to paragraph (3), if an inspector has reasonable grounds for suspecting that *Phytophthora ramorum* is present or likely to be present on any premises, he or she may after giving the occupier or other person in charge of the premises reasonable notice of his or her intention and upon production if so required of his or her authority enter such premises and either on those premises or elsewhere take steps-

(a) to destroy or treat in some other way any susceptible material found on those premises; or

(b) to destroy and to prevent the spread of *Phytophthora ramorum* found on those premises.

(2) Subject to paragraph (3), an inspector may on production if so required of his or her authority at all reasonable times for the purpose of ascertaining whether *Phytophthora ramorum* exists on any premises, or for any other purpose of this Order, including checking compliance with it, enter any premises to-

(a) examine, photograph or mark any part of the premises or any susceptible material or object on the premises;

(b) take samples of any susceptible material or other object and anything which has been or may have been in contact with *Phytophthora ramorum*; or

(c) require production of any documents or records (in whatever form they may be held) relating to the production of or trade in any susceptible material and may examine and copy such documents or records.

(3) The power to enter premises conferred by paragraphs (1) and (2) may be exercised in respect of premises used wholly or mainly as a dwelling only in accordance with a warrant granted under article 28 of the principal Order.

(4) Caiff arolygydd, at ddibenion yr archwiliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), agor, awdurdodi unrhyw berson i agor ar ei ran neu ei gwneud yn ofynnol i berchennog y cyfryw gynhwysydd, bwndel neu becyn arall neu i unrhyw berson â gofal drosto i agor, yn y cyfryw fodd ag y byddo'r arolygydd yn ei bennu, y cynhwysydd neu'r pecyn arall.

(5) Caiff arolygydd, i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol at ddibenion yr archwiliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), wahardd symud, yn gyfan gwbl neu i'r cyfryw raddau ag y byddo'r arolygydd yn datgan, unrhyw ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla, unrhyw gynhwysydd, bwndel, pecyn arall neu wrthrych a all fod yn fodd i ledaenu *Phytophthora ramorum* yn ei farn ef.

(6) At ddibenion yr archwiliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), caiff arolygydd ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd y fangre y cynhelir yr archwiliad ynddi neu i berson arall â gofal drosti ddarparu golau digonol a, phan fo'n briodol, fannau addas ar gyfer arolygiad.

(7) Pan gedwir unrhyw ddogfen neu gofnod o'r math a grybwyllwyd ym mharagraff (2)(c) drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff arolygydd-

(a) gofyn am gael mynd at unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw aparatws neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r ddogfennaeth neu'r cofnodion, a'u harolygu a gwirio eu gweithrediad; a

(b) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â gofal am y cyfrifiadur, yr aparatws neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'u gweithredu, roi i'r arolygydd unrhyw gymorth y byddo'n rhesymol iddo ofyn amdano.

(8) Caiff arolygydd, pan fydd yn mynd i unrhyw fangre o dan baragraff (1) neu baragraff (2) o'r erthygl hon, fynd â'r cyfryw bersonau eraill gydag ef, gan gynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, a'r cyfryw gyfarpar a'r cyfryw gerbydau ag sy'n angenrheidiol at ddiben hwyluso arfer ei bwerau o dan y paragraffau hynny, ynghyd â'r cyfryw bersonau eraill, p'un ai yng nghwmni'r arolygydd neu beidio, a chânt, o ddangos os gofynnir iddynt wneud hynny arwydd o'u hawdurdod a roddwyd iddynt yn y cyswllt hwnnw gan arolygydd, aros ar y tir a mynd yn ôl i mewn o bryd i'w gilydd gyda'r cyfryw gyfarpar a'r cyfryw gerbydau a grybwyllir uchod, er mwyn cyflawni'r cyfryw waith at y dibenion uchod ac yn y cyfryw fodd ag y byddo'r arolygydd yn cyfarwyddo.

**Amrywiol ddarpariaethau o ran hysbysiadau a methu cydymffurfio â hysbysiadau**

**14**. Mae darpariaethau canlynol y prif Orchymyn yn gymwys i hysbysiad a ddyroddir o dan erthygl 12 neu erthygl 13, fel sy'n briodol, o'r Gorchymyn hwn-

(4) An inspector may, for the purpose of the examinations referred to in paragraph (2), open, authorise any person to open on his or her behalf or require the owner or any person in charge of any such container, bundle or other package to open, in such manner as the inspector may specify, the container or other package.

(5) An inspector may, so far as it is necessary for the purposes of the examinations referred to in paragraph (2), prohibit entirely or to such extent as he or she may indicate the movement of any susceptible material, container, bundle, other package or object by means of which in his or her opinion *Phytophthora ramorum* may spread.

(6) For the purposes of the examinations referred to in paragraph (2), an inspector may require the occupier or other person in charge of the premises in which the examination is taking place to provide adequate lighting and, where appropriate, suitable areas for inspection.

(7) Where any such document or record as is mentioned in paragraph (2)(c) is kept by means of a computer, an inspector may-

(a) require access to, and inspect and check the operation of, any computer and any associated apparatus or material which is or has been in use in connection with the documentation or records; and

(b) require any person having charge of, or otherwise concerned with the operation of, the computer, apparatus or material, to afford him or her such assistance as he or she may reasonably require.

(8) An inspector on entering any premises under paragraphs (1) or (2) of this article may take with him or her such other persons including, but not limited to, representatives of the European Commission, and such equipment and vehicles as are necessary for the purpose of facilitating the exercise of his or her powers under those paragraphs, and such other persons whether or not accompanied by the inspector, upon production if so required of their authority given in that behalf by an inspector, may remain on the land and from time to time re-enter with such equipment and vehicles as aforesaid, and carry out such work for the purposes aforesaid and in such manner as the inspector may direct.

**Miscellaneous provisions as to notices and failure to comply with notices**

**14**. The following provisions of the principal Order apply to a notice issued under articles 12 or 13, as appropriate, of this Order-

(a) erthygl 24, fel pe byddai'r cyfeiriadau at erthygl 22 o'r prif Orchymyn yn gyfeiriadau at erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ac y byddai cyfeiriadau eraill at y prif Orchymyn yn gyfeiriadau at y Gorchymyn hwn;

(b) erthygl 26, fel pe byddai'r cyfeiriadau at y prif Orchymyn yn gyfeiriadau at y Gorchymyn hwn; ac

(c) erthygl 27, yn ddarostyngedig i erthygl 28 o'r prif Orchymyn, fel pe byddai'r cyfeiriadau at y prif Orchymyn yn gyfeiriadau at y Gorchymyn hwn.

**Tramgwyddau**

**15**.-(1) Bydd person yn euog o dramgwydd os ydyw, heb esgus rhesymol y mae'n rhaid i'r person hwnnw ei brofi-

(a) yn mynd yn groes i erthyglau 3, 5, 6(1)(a), 6(2), 7(1) neu 7(3) neu'n methu cydymffurfio â hwy;

(b) yn mynd yn groes i ddarpariaeth neu amod hysbysiad a gyflwynir, neu drwydded a roddir o dan y Gorchymyn hwn, neu'n methu cydymffurfio â hi; neu

(c) yn fwriadol yn rhwystro arolygydd neu unrhyw berson a awdurdodir gan arolygydd wrth i'r arolygydd neu'r person arfer ei bwerau o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Bydd person yn euog o dramgwydd os ydyw, at ddibenion caffael yr awdurdod i ddyroddi pasbort planhigion o dan y Gorchymyn hwn-

(a) yn gwneud datganiad y mae'n gwybod ei fod yn ffug o ran manylyn perthnasol;

(b) yn ddi-hid yn gwneud datganiad ffug o ran manylyn perthnasol; neu

(c) yn fwriadol yn methu datgelu unrhyw wybodaeth berthnasol.

(3) Mae person yn euog o dramgwydd os yw, a hynny'n anonest, yn dyroddi pasbort planhigion ffug o dan y Gorchymyn hwn.

(4) Bydd person yn euog o dramgwydd os yw, a hynny'n anonest, yn newid pasbort planhigion sydd ynghlwm wrth ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla neu'n ailddefnyddio pasbort planhigion ar gyfer deunydd pan nad y deunydd sy'n dueddol o gael y pla y dyroddwyd y pasbort planhigion ar ei gyfer ydyw.

(5) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan yr erthygl hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(a) article 24, as if the references to article 22 of the principal Order were to article 12 of this Order and other references to the principal Order were to this Order;

(b) article 26, as if the references to the principal Order were to this Order; and

(c) article 27, subject to article 28 of the principal Order, as if the references to the principal Order were to this Order.

**Offences**

**15**.-(1) A person is guilty of an offence if, without reasonable excuse, proof of which lies on him or her-

(a) he or she contravenes or fails to comply with articles 3, 5, 6(1)(a), 6(2), 7(1) or 7(3);

(b) he or she contravenes or fails to comply with a provision or condition of a notice served, or licence granted, under this Order; or

(c) he or she intentionally obstructs an inspector or any person authorised by an inspector in the exercise of his or her powers given by or under this Order.

(2) A person is guilty of an offence if, for the purpose of procuring the authority to issue a plant passport under this Order, he or she-

(a) makes a statement which he or she knows to be false in a material particular;

(b) recklessly makes a statement which is false in a material particular; or

(c) intentionally fails to disclose any material information.

(3) A person is guilty of an offence if he or she dishonestly issues a false plant passport under this Order.

(4) A person is guilty of an offence if he or she dishonestly alters a plant passport affixed to susceptible material or re-uses a plant passport for susceptible material which is not the material for which the plant passport was issued.

(5) A person guilty of an offence under this article is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

**Dirymu**

**16**. Dirymir Gorchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**1**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

16 Mai 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Revocation**

**16**. The Plant Health (*Phytophthora ramorum*) (Wales) (No. 2) Order 2002(**1**) is revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**2**)

16 May 2006

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) O.S. 2002/2762.

(**2**) 1998 p.38.

(**1**) S.I. 2002/2762.

(**2**) 1998 c.38.

# ATODLEN 1

Erthyglau 4(a) a 10(1)

| *Deunydd sy'n dueddol o gael y pla* | *Gofynion i'w bodloni o ran dyroddi unrhyw dystysgrif ffytoiechydol sy'n mynd gyda deunydd sy'n dueddol o gael y pla ("y dystysgrif")* |
|---|---|
| *Acer macrophyllum* Pursh.<br>*Aesculus californica* Nutt.<br>*Aesculus . hippocastanum* L<br>*Arbutus menziesii* Pursch.<br>*Arbutus unedo* L.<br>*Arctostaphylos* spp. Adans<br>*Camellia* spp.<br>*Castanea sativa* Mill.<br>*Fagus sylvatica* L.<br>*Hamamelis virginiana* L.<br>*Heteromeles arbutifolia* (Lindley) M. Roemer<br>*Kalmia latifolia* L.<br>*Leucothoe fontanesiana* (Steudel) Sleumer<br>*Lithocarpus densiflorus* (H & A)<br>*Lonicera hispidula* (Dougl.)<br>*Pieris* spp.<br>*Pseudotsuga menziesii* (Mirbel) Franco<br>*Quercus* spp. L.<br>*Rhamnus californica* (Esch)<br>*Rhododendron* spp. L., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch.<br>*Sequoia sempervirens* (D. Don) Endl.<br>*Syringa vulgaris* L.<br>*Taxus* spp.<br>*Trientalis latifolia* (Hook)<br>*Umbellularia californica* (Pursch.)<br>*Vaccinium vitis-idaea* Britt.<br>*Vaccinium ovatum* (Hook & Arn) Nutt.<br>*Viburnum spp. L.* | Naill ai-<br>(a) Rhaid i'r dystysgrif gynnwys datganiad ychwanegol bod y deunydd yn tarddu mewn ardal y mae gwasanaeth iechyd planhigion swyddogol y wlad y mae'r deunydd yn tarddu ohoni ("y gwasanaeth iechyd planhigion perthnasol") yn ei chydnabod yn ardal sy'n rhydd o arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd o *Phytophthora ramorum*, ac yn yr achos hwn rhaid i enw'r ardal y mae'r deunydd yn tarddu ohoni gael ei bennu o dan "tarddle"; neu<br>(b) rhaid peidio â dyroddi tystysgrif ac eithrio ar ôl i'r gwasanaeth iechyd planhigion perthnasol wirio'n swyddogol-<br>(i) o wneud arolygiadau swyddogol yn ystod cylchred gyflawn olaf llystyfiant y deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n destun y dystysgrif, neu o wneud arbrawf mewn labordy ar symptomau ymddangosiadol o arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd o *Phytophthora ramorum*, na chanfyddwyd |

# SCHEDULE 1

Articles 4(a) and 10(1)

| *Susceptible Material* | *Requirements to be met in respect of the issuing of any phytosanitary certificate accompanying susceptible material ("the certificate")* |
|---|---|
| *Acer macrophyllum* Pursh.<br>*Aesculus californica* Nutt.<br>*Aesculus hippocastanum* L.<br>*Arbutus menziesii* Pursch.<br>*Arbutus unedo* L.<br>*Arctostaphylos* spp. Adans<br>*Camellia* spp.<br>*Castanea sativa* Mill.<br>*Fagus sylvatica* L.<br>*Hamamelis virginiana* L.<br>*Heteromeles arbutifolia* (Lindley) M. Roemer<br>*Kalmia latifolia* L.<br>*Leucothoe fontanesiana* (Steudel) *SleumerLithocarpus densiflorus* (H & A)<br>*Lonicera hispidula .* (Dougl.)<br>*Pieris* spp<br>*Pseudotsuga menziesii* (Mirbel) Franco<br>*Quercus* spp.L.*Rhamnus californica* (Esch)<br>*Rhododendron* spp. L., other than *Rhododendron simsii* Planch.<br>*Sequoia sempervirens* (D. Don) Endl.<br>*Syringa vulgaris* L.<br>*Taxus* spp.<br>*Trientalislatifolia* (Hook)<br>*Umbellularia californica* (Pursch.)<br>*Vaccinium vitis-idaea* Britt.<br>*Vaccinium ovatum* (Hook & Arn)<br>*Nutt.Viburnum spp.* L.. | Either-<br>(a) The certificate must contain an additional declaration that the material originates in an area recognised by the official plant health service of the country from which the material originates ("the relevant plant health service") as being free from non-European isolates of *Phytophthora ramorum* in which case the name of the area from where the material originates must be specified under "place of origin"; or<br>(b) the certificate must only be issued after official verification by the relevant plant health service that-<br>(i) upon official inspections carried out during the last complete cycle of vegetation of the susceptible material the subject of the certificate, or upon laboratory testing of apparent symptoms of non-European isolates of *Phytophthora ramorum*, no signs of non-European isolates of *Phytophthora ramorum* have been found on susceptible material or any susceptible tree a t the place of production; and |

arwyddion o arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd o *Phytophthora ramorum* ar ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla nac ar unrhyw goeden sy'n dueddol o gael y pla yn y man cynhyrchu; a

(ii) bod samplau cynrychioliadol wedi'u cymryd o'r planhigion cyn eu hanfon, a'u bod wedi'u profi a'u cael yn rhydd o arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd o *Phytophthora ramorum* yn y profion hyn, ac yn yr achos hwn rhaid i'r gwasanaeth iechyd planhigion perthnasol arnodi ar y dystysgrif o dan y pennawd "additional declaration" y datganiad "tested and found free from non-European isolates of *Phytophthora ramorum*".

(ii) representative samples of the plants have been taken before shipment, and have been tested and found free from non-European isolates of *Phytophthora ramorum* in these tests, in which case the certificate must be endorsed by the relevant plant health service under the heading "additional declaration" with the statement "tested and found free from non-European isolates of *Phytophthora ramorum*".

## ATODLEN 2

Erthyglau 6 a 10(2) a (3)

| *Deunydd sy'n dueddol o gael y pla* | *Gofynion i'w bodloni o ran deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac a gynhyrchir yng Nghymru neu a symudir i Gymru o fan arall yn y Deyrnas Unedig, neu o Aelod-wladwriaeth arall, neu o Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw neu o'r Swistir* |
|---|---|
| *Camellia* spp. | Naill ai- |
| *Rhododendron* spp. L., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch. *Viburnum* spp. L. | (a) bod y deunydd sy'n dueddol o gael y pla yn tarddu mewn ardaloedd lle y gwyddys nad yw *Phytophthora ramorum* yn bresennol; |
| | (b) o gynnal arolygiad swyddogol yn y man cynhyrchu, a hynny unwaith o leiaf ar adeg briodol pan fo'r deunydd sy'n dueddol o gael y pla yn y broses o dyfu, neu o wneud arbrawf mewn labordy ar symptomau ymddangosiadol o *Phytophthora ramorum*, na chanfyddwyd arwyddion o *Phytophthora ramorum* ar y deunydd sy'n dueddol o gael y pla yn ystod cylchred gyflawn olaf y llystyfiant; neu |
| | (c) os canfyddwyd arwyddion o *Phytophthora ramorum* ar ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla yn y man cynhyrchu, bod gweithdrefnau priodol y mae iddynt y nod o ddifa *Phytophthora ramorum* ac sy'n cynnwys y mesurau canlynol o leiaf wedi'u rhoi ar waith- |
| | (i) bod deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac y canfyddir ei fod wedi'i heintio â *Phytophthora ramorum* ("deunydd heintiedig") ac unrhyw ddeunydd arall sy'n dueddol o gael y pla o fewn radiws o ddau fetr i'r deunydd heintiedig yn cael eu difa; |

## SCHEDULE 2

Articles 6 and 10(2) and (3)

| *Susceptible Material* | *Requirements to be met in respect of susceptible material produced in Wales or moved into Wales from elsewhere in the United Kingdom, or from another Member State, or from the Channel Islands or Isle of Man or from Switzerland* |
|---|---|
| *Camellia* spp. | Either- |
| *Rhododendron* spp. L., other than *Rhododendron simsii* Planch. *Viburnum* spp. L. | (a) the susceptible material originates in areas in which *Phytophthora ramorum* is known not to occur; |
| | (b) upon official inspection at the place of production, carried out at least once at an appropriate time when the susceptible material is in active growth, or upon laboratory testing of apparent symptoms of *Phytophthora ramorum*, no signs of *Phytophthora ramorum* have been found on the susceptible material during the last complete cycle of vegetation; or |
| | (c) where signs of *Phytophthora ramorum* have been found on susceptible material at the place of production, appropriate procedures aimed at eradicating *Phytophthora ramorum* have been implemented which include at least the following measures- |
| | (i) the destruction of susceptible material found to be infected by *Phytophthora ramorum* ("infected material") and any other susceptible material within a radius of two metres of the infected material; |

(ii) bod cadw deunydd sy'n dueddol o gael y pla o fewn radiws o ddeng metr i'r deunydd heintiedig a phob deunydd arall sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n dod o'r un lot â'r deunydd heintiedig wedi'u cadw yn y man cynhyrchu ac, yn ystod y tri mis yn dilyn canfod haint y cyfeirir ato yn is-baragraff (i), nad ydynt wedi bod yn ddarostyngedig i unrhyw driniaethau a fyddo'n celu'r symptomau o *Phytophthora ramorum* a'u bod wedi'u cael yn rhydd o *Phytophthora ramorum* ar ôl arolygiadau ychwanegol a gyflawnir ddwywaith o leiaf; a

(iii) bod pob deunydd arall sy'n dueddol o gael y pla yn y man cynhyrchu wedi'i arolygu'n fynych yn sgil canfod haint y cyfeirir ato yn is-baragraff (i) a'i gael o'i arolygu felly yn rhydd o *Phytophthora ramorum*.

(ii) susceptible material within a radius of ten metres of the infected material and all other susceptible material from the same lot as the infected material have been retained at the place of production and, in the three months following the finding of infection referred to in sub-paragraph (i), have not been subject to any treatments that may suppress symptoms of *Phytophthora ramorum* and have been found free from *Phytophthora ramorum* after additional inspections carried out at least twice; and

(iii) all other susceptible material at the place of production has been inspected frequently following the finding of infection referred to in sub-paragraph (i) and found on such inspection to be free from *Phytophthora ramorum*.

○

**£3.50**

W317/05/06 ON